Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

# ‘Beth sy’n Wahanol?’
# Diogelu Plant

# Canllaw Cyflym i Newidiadau Allweddol

**Tasglu o ymarferwyr diogelu Gwent sydd wedi nodi'r newidiadau allweddol a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn.**

**Yn y gweithdrefnau newydd i blant, mae llawer o'r newidiadau'n ymwneud â'r pwyslais a roddir ar agweddau fel cyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar y person, eiriolaeth, defnyddio ymarfer myfyriol a chrebwyll ymarferwyr, ac ati, yn hytrach na'r broses o ddiogelu, sydd heb ei newid i raddau helaeth. Hefyd, mae nifer o dermau newydd wedi cael eu cyflwyno ('Adroddiad, 'Lluniwr Hysbysiad', 'Cydlynydd Arweiniol, 'Ymarferwr Arweiniol' ac ati.).**

**Mae rhai agweddau yn y gweithdrefnau newydd yn agored o hyd i rywfaint o ddehongli, ond os bydd rhywun sy'n darllen y canllaw hwn yn poeni am unrhyw wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Fusnes Diogelu Gwent er mwyn gallu dilyn unrhyw broblemau neu bryderon i fyny. DiogeluGwent@caerffili.gov.uk**

## Adran 1

### EGWYDDORION DIOGELU AC ARFER EFFEITHIOL: PLANT

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, y ddeddfwriaeth sydd wrth eu gwraidd, canllawiau a'r gweithdrefnau. Mae'n disgrifio bod arfer effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os bydd cysondeb ym mhob un o'r uchod. Yn yr adran hon, darperir diffiniadau o blant sy'n wynebu risg camdriniaeth ac esgeulustod, ynghyd â'r arwyddion o gamdriniaeth.

Mae diogelu effeithiol yn gofyn bod pob ymarferwr a sefydliad yn chwarae eu rhan yn y broses a'u bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad, ac yn eu dilyn. Mae'r canllaw '*Ymdrin ag Achosion Unigol'* yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai fod wrth wraidd systemau diogelu i blant sy'n wynebu risg.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**

- Cyflwyno Cam-drin Seicolegol a Cham-drin Ariannol yn gategorïau ar wahân yn y gweithdrefnau i blant
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â Chamfanteisio Troseddol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Radicaleiddio, Anffurfio Organau Cenhedlu Merched a Chaethwasiaeth Fodern
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn; hawliau'r plentyn sydd flaenaf. Rhaid ceisio barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed
- Wrth ystyried lles pennaf y plentyn, dylid ystyried ei farn, i'r graddau ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol
- Rhoddir pwyslais ar y canlynol: mae pob unigolyn sy'n gweithio gyda phlant yn chwarae rhan mewn diogelu ac mewn hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc.
- Mae'r gweithdrefnau'n mabwysiadu term cynhwysfawr *'Ymarferwyr'* i bawb sy'n gweithio gyda/yn ymwneud â phlant a phobl ifanc (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr di-dâl a phobl mewn gwaith â thâl)
- Mae gweithdrefnau newydd yn pwysleisio bod diogelu plant yn ddyletswydd ar bawb, a bod unrhyw berson sydd mewn cysylltiad, neu'n gweithio, gyda phlentyn sy'n wynebu risg, yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau i'r plentyn hwn i sicrhau ei ddiogelwch.

- Mae gweithdrefnau newydd yn hyrwyddo cyd-gynhyrchu rhwng asiantaethau a gwasanaethau i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal a chymorth priodol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-gynhyrchu gyda'r plentyn/person ifanc, gan ddatblygu perthynas waith gyda'r plentyn, y person ifanc a'r teulu (yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant *'Beth sy'n Bwysig i'r Plentyn a'r Teulu')*
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth fel bo'i angen i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn/person ifanc, gan gynnwys ei gadw'n ddiogel os yw'r plentyn/person ifanc yn cael a/neu yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol yn barhaus.
- Mae Gofal a Chymorth yn berthnasol o hyd i fynd i'r afael ag unrhyw angen heb ei ddiwallu os na phenderfynir bod risg niwed sylweddol i'r plentyn/person ifanc.
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) - Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu bod disgwyl i ymarferwyr asesu plant a'u teuluoedd yn drylwyr i ystyried effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACES) a allai fod wedi effeithio ar allu'r rhieni i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc.
- Mae mwy o bwyslais ar gymorth yn gynnar ac atal i leihau'r angen am ymholiadau diogelu ac ymyrraeth.

## Adran 2

### Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM BLENTYN MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD A/NEU NIWED

Nid oes newidiadau mawr o ran y Ddyletswydd i Adrodd oherwydd mae hyn wedi bod yn ofyniad ers sawl blwyddyn ac mae arfer presennol yn adlewyrchu hyn i raddau helaeth. Mae'r gweithdrefnau newydd yn mabwysiadu rhai termau newydd, ac yn amlinellu cyfrifoldebau rolau'r 'Lluniwr Hysbysiad' a'r Person Diogelu Dynodedig at y dyfodol. Mae'r gweithdrefnau newydd yn glir fod y Ddyletswydd i Atal yn ymestyn y tu hwnt i gyd-destun gwaith. Rhoddir pwyslais ar arfer sy'n cynorthwyo â chynnal/datblygu perthynas waith gadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd gyda chyd-gynhyrchu'n rhan o hynny, a hefyd cyd-gynhyrchu a chydweithio ag asiantaethau eraill. Mae'r Awgrymiadau newydd ar gyfer Ymarfer yn cefnogi cynnal ymgysylltiad cadarnhaol rhwng ymarferwyr, plant/pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gweithdrefnau'n amlygu'r defnydd o arfer myfyriol a bod ymarferwyr yn defnyddio'u crebwyll i alluogi canlyniadau gwell i blant/pobl ifanc.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**

- Mabwysiadwyd y term 'Adroddiad/Hysbysiad' yn lle atgyfeirio
- Mae'r term 'Lluniwr Hysbysiad' (gweler Adran 3, rhan 1) wedi'i fabwysiadu ac mae'n cyfeirio at y sawl sy'n atgyfeirio
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu bod cam-drin yn gallu digwydd mewn unrhyw leoliad, h.y. gweithgareddau cymunedol, cyfleusterau preswyl, clybiau, ar-lein neu ar unrhyw blatfform y cyfryngau cymdeithasol
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) - dylai PDD fod wedi'i benodi ym mhob asiantaeth y tu allan i Awdurdodau Lleol (a dylai'r asiantaethau amlinellu trefniadau mewnol ar gyfer cyfrifoldebau dirprwyedig y PDD mewn polisi diogelu). Bydd angen i'r holl aelodau staff wybod pwy yw PDD

y sefydliad a/neu at bwy arall y gallant droi i gael cymorth a chyngor os bydd cyfrifoldebau'r PDD wedi'u dirprwyo) – mewn Awdurdod Lleol, y Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) (sef Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol, ynghynt) sy'n berthnasol

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu cyfrifoldebau rôl y PDD
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn awgrymu y dylai ymarferwyr geisio cymorth/trafod pryderon gyda'r Awdurdod Lleol (ALl) os na fydd PDD neu berson(au) mewnol eraill y sefydliad ar gael
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu cyfrifoldebau'r 'Lluniwr Hysbysiad' (sef atgyfeiriwr yn flaenorol)
- Dylai unrhyw ansicrwydd ynghylch rhoi gwybod am bryder gael ei drafod gydag Awdurdod Lleol.
- Yr ymarferwr sydd o hyd yn gyfrifol am gyflwyno hysbysiad (atgyfeiriad), hyd yn oed os yw'n trafod gyda'r PDD neu'r Awdurdod Lleol – ni ddylid cymryd yn ganiataol fod trafodaeth ar lafar gyda'r PDD, yr ALl ac ati, yn ddigon.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu y dylai'r ymarferwyr sy'n llunio'r hysbysiad (atgyfeiriad) geisio cydsyniad gan riant neu ofalwr; mae hyn yn cefnogi perthynas waith gadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd
- Os oes unrhyw amheuaeth am geisio cydsyniad, dylid cynnal trafodaeth gyda'r ALl.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi arweiniad clir ar geisio cydsyniad:
  'Dylai ymarferwyr geisio gofyn caniatâd gan rieni er mwyn hyrwyddo perthynas weithio effeithiol gyda'r teulu'.

  'Dylid ymgynghori â phlant, os ydynt yn ddigon cymwys, a gofyn am eu caniatâd. Mae'n bwysig cynnwys plant yn y broses cyn gynted â phosibl i sicrhau y caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried pan fo'n bosibl ac er mwyn osgoi eu gwneud yn 'destun pryder' yn unig'.

  'Mae gan ymarferwyr ddyletswydd i adrodd am amheuaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod – gyda chydsyniad y plentyn neu hebddo. Nid yw hyn yn golygu na ddylent geisio cael cydsyniad'.

  'Gellir diystyru dymuniad plentyn a rhiant i beidio â gwneud hysbysiad os yw ymarferwyr yn ystyried bod angen gwneud hysbysiad'.

  Mae'r gweithdrefnau'n rhoi arweiniad o ran pryd na fyddai'n briodol ceisio cydsyniad rhieni:
  - y posibilrwydd y byddai'n rhoi'r plentyn mewn rhagor o berygl;
  - y posibilrwydd y caiff plentyn ei fygwth neu ei orfodi i ddweud dim;
  - tebygrwydd cryf y câi tystiolaeth bwysig ei dinistrio/colli;
  - y rhiant yn cael ei adnabod fel y camdriniwr honedig;
  - y plentyn ddim am i'r rhiant fod yn gysylltiedig ar y cam hwnnw, ac mae'n gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
  - os yw er budd y cyhoedd.

  Dylai ymarferwyr drafod p'un a yw ceisio cydsyniad gan y plentyn a'r rhieni yn briodol, gyda pherson diogelu dynodedig (PDD) eu hasiantaeth. Os penderfynir peidio â cheisio cydsyniad, rhaid cofnodi hyn.

- Ni ddylai ymarferwyr 'adael aelod y cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu ei gynghori i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn

uniongyrchol’. Mae gan yr ymarferwr Ddyletswydd i Adrodd pryderon a godir gan aelod o’r cyhoedd. Mae’n gyfrifoldeb ar ymarferwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon y cânt wybod amdanynt gan y cyhoedd – yn y gwaith ac yn eu bywyd preifat. Mae’r gweithdrefnau’n rhoi arweiniad ychwanegol ar ymateb i aelodau’r cyhoedd sy’n trafod pryder diogelu.
- Mae’r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio bod y Ddyletswydd i Adrodd yn mynd y tu hwnt i gyd-destun gwaith os daw ymarferwr i wybod am ymddygiad pryderus ffrind, aelod o’r teulu neu gymydog sydd hefyd yn ymarferwr. Rhaid iddo roi gwybod am ei bryderon, ni waeth p’un a yw’r plentyn/person ifanc eisoes yn hysbys i’r Gwasanaethau Cymdeithasol ai peidio

Camau/gwaith a nodwyd:

Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch yr amserlen a nodir yn y gweithdrefnau newydd ar gyfer cynnull cynhadledd amddiffyn plant, h.y. o fewn 15 diwrnod gwaith o’r cyfarfod trafod strategaeth a benderfynodd bod angen Ymholiadau Adran 47. Yn hytrach nag o’r blaen, sef o fewn 15 diwrnod gwaith o drafod strategaeth, neu’r drafodaeth/cyfarfod strategaeth ddiwethaf os cynhaliwyd mwy nag un, a gychwynnodd yr ymholiadau amddiffyn plant o dan Adran 47.

## Adran 3, Rhan 1

### YMATEB I ADRODDIAD AM BLENTYN SYDD MEWN PERYGL O GAEL EI NIWEIDIO, CAM-DRIN A/NEU EI ESGEULUSO

Mae’r adran hon yn cynnig canllaw ar gyfer ymateb i hysbysiad – gan gynnwys amlinellu rôl ‘y sawl sy’n derbyn hysbysiad’, cysylltu â’r Heddlu ac amlinellu’r broses ar gyfer ymateb i hysbysiad – mae hyn yn cynnwys ymholiadau A47 a’r broses ar gyfer trafodaeth/cyfarfod strategaeth, ynghyd â gweithdrefnau’n ymwneud â sefyllfaoedd cymhleth.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**
- Dylai Awdurdod Lleol gydnabod derbyn hysbysiad yn ysgrifenedig, o fewn 7 niwrnod gwaith
- Bydd aelodau’r cyhoedd yn cael cydnabyddiaeth bod eu hysbysiad wedi’i dderbyn, o fewn cyfnod penodol
- Gall y sawl sy’n derbyn hysbysiad (h.y. y Tîm Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu, Tîm Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ac ati) ofyn am wybodaeth gan ymarferwyr a gwasanaethau eraill i ennill digon o wybodaeth i lywio penderfyniadau; mae gan ymarferwyr ddyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth o dan adran 164 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Ar ôl cael yr adroddiad (ac ystyried yr holl wybodaeth), dylid penderfynu p’un a yw anghenion y plentyn yn ddigonol ar gyfer gofal a chymorth; os felly, dylid asesu’r plentyn o dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- RHAID gweld y plentyn ar YR UN DIWRNOD:
    - Os hysbysir bod y plentyn wedi’i anafu’n gorfforol.
    - Os yw'r plentyn wedi datgelu ei fod wedi’i gam-drin yn gorfforol a/neu rywiol, a’i fod i’w ddychwelyd i sefyllfa a allai ei roi ef/hi mewn perygl.
    - Os yw eisoes yn destun Cynllun Amddiffyn Plant a Chynllun Cymorth.

- Os yw'n blentyn sydd wedi'i adael ar ei ben ei hun.
- Os yw'n dioddef esgeulustod difrifol neu risg iechyd difrifol arall.

- Rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu gytuno p'un a ddylid dychwelyd y plentyn gartref
- Os nad yw plentyn wedi'i weld ar yr un diwrnod, RHAID i'r penderfyniad hwn gael ei gofnodi ar ffeil y plentyn
- Dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y plentyn/person ifanc am ganlyniad yr adroddiad perthnasol a bod angen cydsyniad i gychwyn asesiad o dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan fod anghenion gofal a chymorth wedi'u hamlygu
- Rhaid ystyried plant eraill yn y teulu, ac oedolion sydd mewn perygl
- Dylid ystyried p'un a all Cynllun Gofal a Chymorth gael ei roi ar waith

Cyfarfod Strategaeth ac Ymchwiliad A47

- Pan fydd y pryder yn ymwneud ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan un plentyn tuag at blentyn arall, dylid cynnal cyfarfodydd strategaeth ar wahân ar gyfer pob plentyn.
- Rhaid gwneud cofnod o'r drafodaeth / cyfarfod strategaeth a rhaid rhannu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith (yn hytrach na 5 diwrnod gwaith fel y mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWPCC) yn ei amlinellu)
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno amserlen ar gyfer ymholiadau cynllunio amlasiantaethol A47 – h.y. pwy sy'n gwneud beth; mae'r gweithdrefnau'n manylu'n fwy ar y cynllunio a'r ymchwilio, profiad byw'r plentyn (sy'n wahanol i AWPCC)
- Gwasanaethau cymdeithasol sydd â'r prif gyfrifoldeb am ymholiadau. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n arwain yr ymholiadau fod yn gymwys a bod wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Hefyd, dylai gael ei oruchwylio'n briodol
- Mae dyletswydd ar ymarferwyr eraill, fel yr heddlu, iechyd, addysg a phartneriaid perthnasol eraill, i gydweithio a helpu'r gwasanaethau cymdeithasol i ymgymryd â'u hymholiadau.
- Rhaid bod rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau lluosog yn angenrheidiol ac yn gymesur, ond yn ddigonol, yn amserol, yn ddiogel ac wedi'i gofnodi, h.y. cofnodi'n ysgrifenedig y wybodaeth sydd wedi'i rhannu, a pham.
- Mae disgwyl i bob ymarferwr gymryd perchenogaeth ar y wybodaeth a gyfrannodd at yr ymholiad A47 a dylai sicrhau bod rhieni a phlant yn gwybod pa wybodaeth sydd wedi'i chynnwys.
- Dylai fod cyn lleied â phosibl o wybodaeth gyfrinachol na ellir ei rhannu gyda'r teulu neu aelodau penodol o'r teulu, ynghyd â sail resymegol glir dros beidio â rhannu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn ymestyn i ymholiadau A47 a'r ymchwiliad.

Archwiliad Meddygol

- Mae'r amserlen ar gyfer cynnal archwiliad meddygol lle y bu honiad o gam-drin rhywiol wedi'i hepgor o'r gweithdrefnau newydd.
- Dylai'r asesiad o'r plentyn gael ei gynnal gan Baediatregydd gyda chymwyseddau Lefel 3 yn unol â Diogelu Plant a Phobl Ifanc.
- O ran diffyg caniatâd rhieni, mae'r gweithdrefnau newydd yn cyfeirio at Orchymyn Asesu Plentyn a Gorchymyn Amddiffyn Brys y gellir ei wneud a'i orchymyn gan y llys er mwyn cael rhieni i gydweithredu.
- Yr Adroddiad Meddygol yn dilyn archwiliad – nid yw'n darparu amserlen mwyach ar gyfer pryd y dylid ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Ymholiadau A47, dadansoddi a gwneud penderfyniadau

- Mwy o bwyslais ar ddadansoddi gwybodaeth, a ddylai ystyried pryderon yn ymwneud ag ymarferwr, materion sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y plentyn ac ansawdd ei brofiad byw.
- Mwy o bwyslais ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a'r cryfderau a nodir (a oes digon o 'ffactorau amddiffynnol') i atal niwed hirdymor i'r plentyn.
- Mae'n cyflwyno ystyriaeth o ffactorau economaidd gymdeithasol sy'n effeithio ar y plentyn a'i deulu, ynghyd â phroblemau oedolion sy'n effeithio ar y gallu i rianta.

Defnyddio dadansoddiad A47 a gwneud penderfyniadau

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn darparu arweiniad ychwanegol ar y ffordd y mae asiantaethau'n cofnodi materion o dan A47 a phenderfyniadau allweddol, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu proses yr ymholiad amddiffyn plant yn llawn
- Mae nodiadau bras yr ymarferwr yn dystiolaeth o'r hyn a ysgrifennwyd ar y pryd, felly ni ddylid eu dinistrio pan gofnodir manylion yn fwy ffurfiol; dylid eu cadw'n ddiogel rhag ofn y bydd eu hangen mewn unrhyw achosion cyfreithiol dilynol.

## Adran 3, Rhan 2

### GWNEUD PENDERFYNIADAU A CHYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT CYCHWYNNOL

Mae'r gweithdrefnau newydd yn gosod mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r plentyn a'i deulu yn y broses hon. Mae perthynas yn fwyaf tebygol o ddatblygu os caiff rhieni eu trin gyda pharch, empathi a chynhesrwydd, ac o wrando arnynt, siarad yn onest â nhw ac ystyried yr anghydbwysedd grym.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu canllawiau ar gyfer ymholiadau Adran 47, gwneud penderfyniadau a chynhadledd amddiffyn plant, ac mae'n cyflwyno 'penderfyniadau' newydd.

Mae'r gweithdrefnau'n awgrymu y dylid ystyried sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog, ysgrifenedig ar gael, sy'n amlinellu diben, proses a chanlyniadau posibl ymholiadau amddiffyn plant A47.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**

- Newidiadau mewn iaith a defnyddio termau fel 'Hysbysiad', 'Ymarferwyr', 'Swydd o Ymddiriedaeth'
- Mae gweithdrefnau newydd yn rhoi manylion pwy y mae'r rheiny sydd mewn 'Swyddi o Ymddiriedaeth' yn cyfeirio atynt...ond mae hyn yn ymhelaethu ar yr hyn sy'n cael ei gydnabod yn gyfreithiol ar hyn o bryd
- O'r blaen, amlinellwyd pump 'sbardun' posibl ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant, ond ni ddefnyddir/ni chyfeirir at y rhain yn y gweithdrefnau newydd.
- Mae categorïau newydd, sef cam-drin ariannol, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol; mae'r rhain ar wahân yn yr eirfa ond yn dod ynghyd mewn un categori ar gyfer cofrestru
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu penderfyniadau yn sgil cynnal ymholiadau A47 ac fe'u hamlinellir isod – roedd y penderfyniadau hyn yn yr hen

weithdrefnau ac, felly, nid oes newid iddynt, ond mae'r camau sy'n dilyn o'r rhain wedi newid:

*Penderfyniad 1- Nid yw pryderon o ran niwed sylweddol wedi'u cyfiawnhau*
Nid yw pryderon o ran diogelu wedi'u cyfiawnhau, ond dylid ystyried p'un a oes gan y plentyn anghenion gofal a chymorth sydd heb eu diwallu. Felly, argymhellir asesiad o anghenion gofal a chymorth dan adran 20 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant neu roi gwybod i wasanaethau ataliol. Dylai'r rheolwr perthnasol gadarnhau'r penderfyniad a dylid anfon llythyr 'dim gweithredu pellach' at y rhieni.

*Penderfyniad 2- Mae pryderon o ran niwed sylweddol wedi'u cyfiawnhau ond nid yw'r plentyn yn wynebu risg parhaus o niwed sylweddol*
Yn yr hen weithdrefnau, os ystyriwyd bod yr uchod yn berthnasol, awgrymwyd y dylai penderfyniad i beidio â symud ymlaen i gynhadledd gael ei ystyried yn ofalus, a byddai angen i berson dynodedig a phriodol gymwys yn y gwasanaethau cymdeithasol gymeradwyo'r penderfyniad hwn. Ymddengys fod hyn wedi'i hepgor o'r gweithdrefnau newydd.

*Penderfyniad 3- Pryderon wedi'u cyfiawnhau, ac ystyrir bod y plentyn yn profi neu'n wynebu risg o niwed, gamdriniaeth neu esgeulustod*
Risg barhaus o niwed sylweddol, felly dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gynnull cynhadledd amddiffyn plant

**Cynhadledd Amddiffyn Plant**

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn datgan bod <u>rhaid</u> i bob ymarferwr ac asiantaeth a wahoddir i fynychu cynhadledd amddiffyn plant gyflwyno adroddiad ysgrifenedig.
- Ni ddylai cynadleddau bara mwy na 2 awr fel arfer, gan fod y gweithdrefnau newydd yn cydnabod y gall hynny fod yn wrthgynhyrchiol a chael effaith negyddol ar deulu ac ymarferwyr ac, felly, safon trafodaethau.
- Yn y gweithdrefnau newydd, amlygir y dylid ystyried dichonoldeb dadansoddi a gwneud penderfyniadau am blant sy'n wynebu risg ynghyd â'u brodyr/chwiorydd yn ystod un gynhadledd, os oes pryderon yn ymwneud â'r holl blant.
- Mae mwy o bwyslais yn y gweithdrefnau ar gynnull cynhadledd pan fydd asesiad cyn geni yn dod i'r casgliad y gallai baban heb ei eni wynebu risg niwed sylweddol. Nid yw gweithdrefnau newydd yn darparu amserlen ar gyfer trefnu cynhadledd; yn flaenorol, roedd hyn 8 i 16 wythnos o'r dyddiad geni disgwyliedig.
- Mae'r gweithdrefnau'n pwysleisio nad yw presenoldeb plentyn ar ei ben ei hun mewn cynhadledd yn gyfystyr â chymryd rhan na rhoi llais i'r plentyn, a dylai egwyddorion/ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn fod yn berthnasol. Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi enghreifftiau o sut i gyflawni hyn, gan gynnwys eiriolaeth i'r plentyn a'r rhieni.
- Mae angen gwybodaeth benodol oddi wrth asiantaethau gwahanol ac mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu pa wybodaeth y dylai sefydliadau sy'n cymryd rhan ei darparu.
- Yn syth ar ôl y gynhadledd: disgwylir y dylai'r gynhadledd roi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, dylai'r cadeirydd a'r gweithiwr cymdeithasol dreulio amser ar ôl y gynhadledd yn esbonio beth mae'n ei olygu pan fydd plentyn yn destun cynllun amddiffyn, gofal a chymorth, beth mae cofrestriadau yn ei olygu, beth fydd angen i'r rhieni ei wneud, rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr a'r grŵp

craidd, a sut bydd rhieni / plentyn yn cymryd rhan yn y broses hon o hynny ymlaen.

- Gallai adroddiadau meddygol amddiffyn plant gael eu trafod yn y gynhadledd, ond ni ddylid eu dosbarthu gyda phapurau'r gynhadledd. DS: Arfer da fyddai crynhoi'r rhain.
- Newid o'r Cynllun Amddiffyn plant i'r Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth, a ddylai gynnwys pob elfen o gynllun fel y'i amlinellir o dan Ran 4 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu'r broses benderfynu mewn cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylai'r ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd benderfynu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael:

    - p'un a oes risg barhaus o niwed sylweddol i'r plentyn AC
    - a oes angen ymyrraeth amlasiantaethol a gyflwynir trwy gynllun amddiffyn, gofal a chymorth ffurfiol a chofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant

  Dylid gwneud penderfyniadau ar bob plentyn unigol, gan ganolbwyntio ar y risg wirioneddol, debygol a/neu barhaus o niwed sylweddol; pwysleisir na all ymarferwyr osgoi eu cyfrifoldeb yn y broses benderfynu yn y gynhadledd
- Nid oes risg barhaus i'r plentyn o niwed ond mae ganddo anghenion gofal a chymorth: dylid annog rhieni i barhau ag asesiad llesiant o dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno rôl **Cydlynydd Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth** – gweithiwr cymdeithasol fydd hwn sy'n cael ei gyflogi gan wasanaethau cymdeithasol, bydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a bydd ganddo gymwysterau a phrofiad addas i gymryd y prif gyfrifoldeb am y cynllun ar ran yr awdurdod lleol.
- Dylai pob plentyn y rhoddir ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael unigolyn wedi'i enwi (h.y. Gweithiwr Cymdeithasol) wedi'i neilltuo iddo, a fydd yn ymgymryd â rôl Cydlynydd Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth
- Bydd Cydlynydd y Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o baratoi, cwblhau, adolygu, cyflwyno a diwygio'r cynllun.
- Er mai'r amserlen yn flaenorol ar gyfer cwblhau asesiad parhaus oedd 35 diwrnod (yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan), mae'r gweithdrefnau newydd yn gosod amserlen o 42 diwrnod gwaith o ddechrau'r ymholiadau A47

## Adran 4

### CYNLLUNIO AC YMYRRAETH AR GYFER PLANT SYDD AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT

Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r angen am gerrig milltir a mesurau canlyniadau penodol ar gyfer plant i sicrhau bod holl aelodau'r grŵp craidd yn deall sut beth fydd bywyd i'r plant pan fydd eu henw'n cael ei dynnu o'r gofrestr. Mae Adran 4 yn amlinellu cyfrifoldebau Cydlynydd y Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth, a'r sgiliau a'r ymagwedd y mae eu hangen i gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

I gynorthwyo â datblygu'r cynllun, mae'r gweithdrefnau newydd wedi llunio cwestiynau i helpu cyflawni'r cynllun.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**

- Mae cyfrifoldebau Cydlynydd y Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth yn cynnwys cydlynu'r gwaith o baratoi, cwblhau, adolygu, cyflwyno a diwygio'r Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno cwestiynau i gynorthwyo â datblygiad y cynllun:
  - Dealltwriaeth gyffredin o'r pryderon
  - Beth mae rhieni a'r plentyn yn dymuno'i gyflawni
  - Sut olwg fyddai ar brofiadau byw dyddiol y plentyn pe byddai'r pryderon yn cael eu datrys
  - Mesurau canlyniadau terfynol
  - Sut bydd y grŵp craidd yn mesur newid fesul tipyn
  - Gallu rhieni a'u symbyliad i ymgysylltu â'r cynllun
  - Sut i adeiladu ar gryfderau rhieni
  - Rhwystrau rhag newid
  - Sut gall Ymarferwyr ddangos eu hymrwymiad i gefnogi a gweithio gyda'r teulu
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog yr holl aelod ymarferwyr i gymryd rhan yn y grŵp craidd. Fodd bynnag, os na fydd aelod o'r grŵp craidd yn gallu mynychu'r cyfarfod, dylai ddarparu adroddiad gyda digon o fanylion i alluogi pob parti i gael eu hasesu ac ymwneud â'r cynllun.
- Mae'r gweithdrefnau'n amlygu pa mor bwysig yw hi fod rhieni/gofalwyr yn ymwneud yn weithgar â'r grŵp craidd a rhoi'r cynllun ar waith.
- Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu bod rhaid i'r ymgysylltu ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a bod Cyd-gynhyrchu yn hanfodol.
- Mae'r adran hon yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer ymarfer da i gyflawni cyd-gynhyrchu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ystyried / defnyddio anghenion rhieni.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ymarferwyr i osgoi caboli iaith i ddisgrifio sefyllfaoedd ac, yn hytrach, dylent fod yn ddi-flewyn-ar-dafod wrth gyfleu eu pryderon
- Aelodau'r Grŵp Craidd yn cymryd rhan mewn cynadleddau adolygu – Dylai adroddiadau pob ymarferwr gael eu rhannu gyda'r plentyn a'r teulu wyneb yn wyneb lle y bo'n briodol, i alluogi trafodaeth ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gynhadledd adolygu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn caniatáu am gynnal cynhadledd adolygu yn gynnar os nad yw'r cynllun yn amddiffyn y plentyn rhag niwed neu os yw ymarferwyr yn cael problemau sylweddol wrth weithredu'r cynllun
- Pan ddaw'n hysbys bod teulu sydd â phlentyn y mae ei enw wedi'i gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant wedi symud, neu'n bwriadu symud, allan o ardal awdurdod lleol a hynny yn barhaol neu am gyfnod dros dro, rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn y wybodaeth roi gwybod ar unwaith i'r rheolwr tîm, yn ogystal ag i Gydlynydd y Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth.

- Nid oes newid i'r wybodaeth ysgrifenedig y mae'n rhaid ei hanfon i'r awdurdod derbyn
- Nid oes amserlenni wedi'u cofnodi yn y gweithdrefnau newydd ynghylch ymateb i ymholiadau o ran y Gofrestr Amddiffyn Plant. Rhaid cofnodi pob ymholiad ar gronfa ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn 24 awr.

## Adran 5

### HONIADAU/PRYDERON DIOGELU YNGHYLCH YMARFERWYR A'R RHAI HYNNY MEWN SWYDDI O YMDDIRIEDAETH

Mae Adran 5 yn amlinellu ymateb statudol yr Awdurdod Lleol i bryderon proffesiynol. Mae'r gweithdrefnau yn amlinellu y dylid mynd i'r afael â phryderon proffesiynol trwy broses ar wahân sy'n gallu cyd-redeg â'r broses ddiogelu, neu yn absenoldeb plentyn y nodwyd ei fod mewn perygl, ar ei ben ei hun.

**Newidiadau/symudiadau allweddol ar waith:**

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cynyddu cwmpas y rhai y mae'r adran hon yn berthnasol iddynt
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio'r ddyletswydd i hysbysu pryderon am ymarferwr (gweler adran 5), ac maent yn amlygu arwyddocâd *polisi chwythu'r chwiban* asiantaethau

Camau/gwaith sy'n ofynnol:

- Ystyried/egluro rôl y 'Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu', gan nad oes cyfeiriad yn y gweithdrefnau newydd at y ffaith bod y rôl yn gallu cael ei dirprwyo i asiantaethau partner, fel iechyd